

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 7 Hydref 2019 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Jim Bryan, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams ac Emrys Wynne.

32. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Gavin Harris a Menna Jones.

33. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

34. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 9 Medi 2019 yn gywir.*

35. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

36. GOLEUO COFEB TOM PRYCE

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried neges gan Aerial Electrics ynghylch datrys y broblem gyda'r goleuadau yn y ddaear wrth gofeb Tom Pryce. Bu'r aelodau'n trafod y datrysiadau a awgrymwyd, ac awgrymwyd bod Aerial Electrics yn trafod gyda chwmni adeiladu lleol i sicrhau gwella draeniad yn y safle fel nad yw'r broblem yn digwydd eto. Roedd yr aelodau'n fodlon gyda'r amcanbris o £452.00 + TAW ar gyfer y goleuadau, i ddod o gyllideb Cofeb Tom Pryce, a chymeradwyo hyd at £200.00 + TAW ychwanegol ar gyfer gwaith draenio.

PENDERFYNWYD: *bwrw ymlaen gyda thrwsio'r goleuadau am yr amcanbris o £452.00 + TAW a hyd at £200.00 + TAW ar gyfer y gwaith draenio.*

37. AROLWG Y MEINCIAU CYHOEDDUS YN RHUTHUN

Penderfynwyd gohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf, gyda'r map a manylion pa Gynghorydd sy'n tynnu lluniau mewn ardaloedd penodol i'w anfon at yr aelodau.

PENDERFYNWYD: *gohirio'r eitem hon, a dosbarthu'r map a thrafod hyn, ynghyd â'r ffotograffau, yn y cyfarfod nesaf.*

38. COEDEN NADOLIG A GOLEUADAU NADOLIG RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried prisiau'r goeden Nadolig a goleuadau LED ar y goeden. Dim ond un cwmni oedd wedi ymateb i'r cais am bris coeden Nadolig. Dyfynbris Gwasanaethau Coed Cymru oedd £512.00 + TAW ar gyfer coeden 25 troedfedd, gan esbonio y byddai coeden dalach, fwy o faint, yn ddrutach oherwydd yr angen am gludiant arbenigol. Gofynnodd yr aelod am i aelod o'r Pwyllgor gael mynd i ddewis y goeden neu ei gweld cyn ei gosod ar y Sgwâr. Ni dderbyniwyd prisiau ar gyfer goleuadau LED ar y goeden. Byddai'r Clerc yn cysylltu gyda'r cwmni eto i gadarnhau mai uchder y goeden fyddai 25 troedfedd. O ran y goleuadau Nadolig ar y polion lamp petai Cyngor Tref Rhuthun yn dymuno ymestyn ei gytundeb llogi tair blynedd am flwyddyn arall, yna byddai'n berchen ar y goleuadau. Bu'r aelodau'n trafod hyn a manteision ac anfanteision berchen ar y goleuadau yn erbyn eu llogi, gyda'r budd o wasanaeth trwsio a chynnal a chadw sy'n ymateb yn gyflym iawn.

PENDERFYNWYD: *derbyn y pris £512.00 + TAW ar gyfer y goeden Nadolig a gofyn am brisiau ymestyn y cytundeb neu drefnu cytundeb llogi newydd ar gyfer y goleuadau Nadolig ar y polion lamp, i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.*

39. DIWEDDARIAD YNGHYLCH MAES CHWARAE'R CAEAU CHWARAE COFFA

Ystyriodd yr aelodau'r neges e-bost gan Llyr Williams, Cadeirydd y Gymdeithas Caeau Chwarae Coffa ynghylch cyflwyno cynnig yng nghyfarfod blynyddol y Gymdeithas ddydd Sul, 10 Tachwedd, i

dynnu'r maes chwarae ymaith ar gyfer manau parcio ychwanegol. Holodd yr aelodau a oedd y Gymdeithas yn fodlon talu costau gwneud hyn eu hunain, gan ofyn pwy sy'n berchen ar yr offer chwarae.

PENDERFYNWYD: *gofyn am gyngor cyfreithiol gan Gyngor Sir Ddinbych ynghylch perchnogaeth y safle a'r offer chwarae.*

40. TÎM TREF TACLUS

Awgrymwyd bod y Maer a Rheolwr yr Hen Lys/Dirprwy Glerc yn trafod dyddiadau'r dyfodol ar gyfer gwirfoddolwyr y Tîm Tref Taclus ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD: *bod y Maer a Rheolwr yr Hen Lys/Dirprwy Glerc yn trafod dyddiadau'r dyfodol ar gyfer gwirfoddolwyr y Tîm Tref Taclus a chyflwyno adroddiad i'r cyfarfod nesaf.*

41. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 11 Tachwedd 2019 am 7:00pm.*